

Enghreifftiau o gwestiynau cyfweiliadau

CY: Beth yw barn staff a disgyblion Blwyddyn 5 o asesu cyfoedion a hunan-asesu?

Cwestiynau cyfweiliad i ddisgyblion.

Nodiadau:

Egluro pwrpas y cyfweiliad i'r disgyblion gan ddweud wrth y disgyblion y gallant ddod â'u cyfranogiad i ben ar unrhyw adeg yn ystod y cyfweiliad. Egluro sut i ddefnyddio'r cerdyn wyneb hapus/trist. Gwirio drwy gydol y cyfweiliad bod y disgyblion yn hapus/yn fodlon parhau. Sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i ateb pob cwestiwn.

Cwestiynau allweddol:

C.1a - Ydych chi byth yn marcio eich gwaith eich hun yn y dosbarth?

Os ydy,

C.1b – Sut ydych chi'n gwneud hyn? Allwch chi roi enghreifftiau?

C2. Ydych chi'n meddwl bod marcio eich gwaith eich hun yn eich helpu i ddysgu?

C.3. A yw'n well gennych farcio eich gwaith eich hun neu pan fydd eich athro yn marcio eich gwaith?

Anogwr: Allwch chi ymestyn? A oes unrhyw reswm i chi deimlo fel hyn?

C4. Ydych chi'n gwybod beth mae'n ei olygu i asesu cymheiriaid/gwaith marcio gan gymheiriaid?

Anogwr: Gofyn i'r disgyblion ehangu eu hatebion (ail-eirio'r cwestiwn os oes angen e.e. ydych chi weithiau yn marcio gwaith eich cyd-ddisgyblion?

C5. A Ydych chi'n hoffi marcio gwaith eich cyd-ddisgyblion?

Awgrymu: A oes unrhyw resymau am hyn?

C6. Sut ydych chi'n teimlo pan fydd cyd-ddisgyblion yn marcio'ch gwaith?

Anogwch - Pam ydych chi'n teimlo fel hyn?

Cwestiynau i'w gofyn os oes amser ychwanegol:

C.: Hoffech chi farcio eich gwaith eich hun a bod eich cyd-ddisgyblion yn gweithio mwy?

Awgrymu: A oes unrhyw resymau am hyn?

C. Pa mor aml fydddech chi'n dweud eich bod yn marcio eich gwaith eich hun neu waith eich cyd-ddisgyblion?

Anogwr: bob dydd? Bob wythnos? Ayyb

Cwestiynau Cyfweiliad ar gyfer y dysgwyr

CY: Beth yw barn staff a dysgwyr blwyddyn 3 o ddefnyddio adborth llafar fel strategaeth asesu ar gyfer dysgu?

C1: Ydych chi'n defnyddio dull bodiau i fyny fel dull o adborth llafar?

Anogwr: Os ydych chi, ydych chi yn hoffi defnyddio hyn a pham?

C2: Ydych chi'n defnyddio dull asesu ar lafar gyda partner?

Anogwr: Ydych chi'n hoffi gwneud hyn?

C3: Ydych chi'n teimlo ofnus wrth siarad o flaen y dosbarth?

C4: Ydy'r athrawes yn defnyddio ffyn lolipop?

Anogwr: Os ydy, ydych chi'n hoffi hyn a pham?

Cwestiynau Cyfweiliad ar gyfer y dysgwyr

CY: Beth yw barn staff a dysgwyr blwyddyn 4 o ddefnyddio ffyn lolipop fel strategaeth asesu ar gyfer dysgu?

C1: Pam wyt ti'n credu mae athrawon yn defnyddio ffyn lolipop?

C2: Wyt ti'n gallu cofio ym mha wersi roeddwn yn defnyddio'r ffyn lolipop?

C3: Wyt ti'n credu bod y ffyn lolipop yn gweithio i sicrhau bod pawb yn cael tro?

C4: Sut wyt ti'n teimlo pan mae'r athrawes yn defnyddio ffyn lolipop i ddewis rhywun i ateb cwestiwn?

C5: A oes ffordd ti'n meddwl gall y strategaeth cael ei wella?

C6: Oes gennyt unrhyw beth arall i ddweud am y ffyn lolipop?

Cwestiynau Cyfweiliad – Athrawon

CY: Beth yw barn staff a dysgwyr blwyddyn 5 o ddefnyddio hunan-asesu ac asesu cyfoedion fel strategaethau asesu ar gyfer dysgu?

1. Beth yw eich barn am asesu ar gyfer dysgu yn gyffredinol?
2. Pam mae asesu ar gyfer dysgu yn bwysig yn eich barn chi?
3. Pam ydych chi'n dewis defnyddio hunan asesu/ asesu cyfoedion?

4. Pa un ydych chi'n ddefnyddio mwy ohono, hunan-asesu neu asesu cyfoedion?
 5. Pa strategaethau ydych chi'n defnyddio er mwyn dysgu hunan-asesu a pham?
 6. Pa strategaethau ydych chi'n defnyddio er mwyn i'r dysgwyr asesu cyfoedion a pham?
 7. O ran y strategaethau hyn, gyda pa un mae'r disgyblion yn cyfrannu'n well?
Anogwr: Pam?
 8. Pa strategaeth sydd orau gennych? Pam?
 9. Beth yw'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â hunan asesu ac asesu cyfoedion?
Anogwr: Oes unrhyw heriau?
-

Cwestiynau Cyfweliad – Athrawon

CY: Beth yw barn staff a dysgwyr blwyddyn 3 o strategaethau hunan-asesu?

1. Beth yw eich barn chi ar hunan-asesu?
 2. Yw polisïau'r ysgol yn amlinellu pwysigrwydd hunan-asesu?
 3. A yw'n haws i athrawon ei ddefnyddio neu ydi'n creu fwy o waith?
 4. Ydi plant yn asesu eu hunan yn deg ac yn fanwl gywir?
 5. Ydi'n rhoi pwysau ar blant?
 6. Beth yw rhai strategaethau gwahanol? Sut ydynt yn gweithio?
 7. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio hunan-asesu neu asesu cyfoedion?
 8. Oes rhai pynciau yn well ar gyfer ei ddefnyddio nag eraill?
 9. Beth ydych yn credu yw manteision hunan-asesu?
 10. Beth ydych yn credu yw rhwystrau hunan-asesu?
 11. Yn eich barn chi, hunan-asesu neu asesu cyfoedion sydd mwyaf effeithiol? Pam?
 12. Beth ydi rhai strategaethau asesu cyfoedion ydych yn ei ddefnyddio?
 13. Ydi hunan-asesu yn helpu athrawon i ddeall y ffordd mae'r plentyn yn meddwl?
 14. Ydi chi'n credu bod effeithiolrwydd hunan-asesu yn dibynnu ar oedran y disgyblion?
-

Cwestiynau cyfweiliad: Athrawon

Beth yw barn staff a dysgwyr blwyddyn 3 o strategaethau cwestiynu wrth asesu y dysgu?

Mae'r cyfweiliad hwn yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chwestiynu'n effeithiol mewn ysgolion cynradd. Dylai'r cyfweiliad hwn gymryd rhwng 20-30 munud.

Mae hawl i chi gadael y cyfweiliad hwn ar unrhyw adeg. Hefyd, mae hawl i chi gwrthod ateb unrhyw gwestiwn. Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data (2018). Ydych chi'n fodlon gymryd rhan yn ein hymchwil?

Ydy hi'n bosibl i ni recordio'r cyfweiliad hwn?

Cwestiynau cyffredinol AagD

1. Ydych chi'n credu bod Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) yn bwysig?
2. Pam ydych chi'n credu hyn?
3. Beth yw eich polisiâu ar AagD?
4. Pam mae AagD yn bwysig yn eich barn chi?
5. Pa strategaethau ydych yn defnyddio?

Cwestiynau cwestiynu

1. Ydych chi'n ystyried strategaethau cwestiynu effeithiol wrth gynllunio neu gyflwyno'ch gwersi?
2. Pa mor bwysig ydy strategaethau cwestiynu yn eich polisi AagD?
3. Beth yw manteision cwestiynu yn effeithiol?
4. Beth yw'r heriau wrth geisio cwestiynu yn effeithiol?
5. Sut ydych chi'n addasu cwestiynau ar gyfer gwahanol anghenion/lefelau gallu'r plant?
6. Oes gennych chi strategaeth i annog disgyblion tawelach i gymryd rhan mewn trafod aethau dosbarth?
7. Sut ydych chi'n ceisio osgoi yr un plant yn ateb trwy'r amser?
8. Sut ydych chi'n delio gyda'r plant sy'n betrusgar i ateb?
9. Ydych chi'n defnyddio Tacsonomeg Bloom? Pam?
10. Ydych chi'n defnyddio'r strategaethau yma'n aml?
11. Ydy hi'n bwysig amrywio'r cwestiynau? Pam?
12. Pa strategaethau cwestiynu ydych yn eu defnyddio? E.e. meddwl- paru-rhannu; ffonio ffrind, byrddau bach gwyn, gwaith grwp, cynyddu amser meddwl
13. Pa effaith ydych wedi gweld bod cwestiynu'n cael ar y plant – ydy cwestiynu'n annog nhw i ymgymryd mwy yn yr wers? Neu os ofn gyda nhw o cael ateb yn anghywir sy'n dal nhw nol?
14. Pa fath o gwestiynau ydych yn gofyn? (Agored, caeedig?)
15. Sut ydych yn defnyddio atebion y plant i ddatblygu'r dysgu?
16. Sut ydych chi'n defnyddio unrhyw gwestiynau sydd gan y plant i ddatblygu'r wers / annog dysgu annibynnol?

Cwestiynau Cyfweiliad (y rhai wedi ei uwcholeuo wedi dod lan yn naturiol yn y cyfweiliad)

CY: Beth yw barn staff a dysgwyr blwyddyn 4 o ddefnyddio cwestiynu fel strategaeth asesu ar gyfer dysgu?

1. Pa ddulliau cwestiynu fel strategaeth asesu ar gyfer dysgu ydych chi'n defnyddio yn y dosbarth?
2. Ydych chi'n gweld tuedd yn ymddygiad y disgyblion yn dibynnu ar ba strategaeth ydych chi'n ei ddefnyddio?
3. Pryd ydych chi'n defnyddio'r strategaethau mwyaf yn ystod eich gwersi?
4. Ydych chi'n credu bod y dulliau yma yn cael dylanwad ar safon trafod a gwaith y disgyblion?
5. Felly mae hi'n cyfle i chi hybu'r iaith yn y dosbarth yn gyson?
6. Pa heriau arall ydych chi'n gweld yn codi wrth ddefnyddio'r dull cwestiynu?
7. Gan eich bod chi wedi dweud bod y plant hyderus pob amser yn ateb, a oes dulliau gennych chi i drio sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gynnig ateb?